

Polisi Sir Gaerfyrddin ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol

Cyflwynwyd y ddogfen i'r Cyngor Llawn ar y 14eg Rhagfyr 2016

Ebost – <mailto:tai@sirgar.gov.uk>
Gwe gyfeiriad <http://www.sirgar.llyw.cymru>

Mynegai

Trosolwg	2
Datblygu'r polisi hwn	3
Camau allweddol ar gyfer cael eich ystyried ar gyfer tai cymdeithasol	3
Gwrthod cynnig	10
Y Broses Adolygu	11
Cynghorwyr, aelodau'r bwrdd, staff a'u perthnasau	11
Rhoi cyhoeddusrwydd i'r polisi	12
Newid y polisi	12
Atodiad Un – lleoliad, math a maint yr eiddo	13
Atodiad Dau – diffiniad o gysylltiad lleol a chysylltiad cymunedol ac ardaloedd	15
Atodiad Tri – eiddo a ddyrennir y tu allan i'r polisi ac eithriadau eraill	17

Trosolwg

Nod y polisi hwn yw esbonio'n glir sut rydym yn penderfynu pwy sy'n cael tai cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin.

Ein polisi yw caniatáu i ymgeiswyr ddewis ym mha ardal yr hoffent gael eu cartrefu ac i ddweud ar gyfer pa fath o dai yr hoffent gael eu hystyried.

Rheolir y broses o ddyrannu tai cymdeithasol gan y gyfraith, ond gall gynnwys rhai blaenoriaethau lleol. Datblygwyd y blaenoriaethau lleol hyn trwy ymgynghori ag aelodau'r Cyngor, ymgeiswyr, partneriaid a'r cyhoedd.

Rhannwyd ein blaenoriaethau i ddau fand, A a B. Pan fydd gan ymgeiswyr yr un statws blaenoriaeth, gwneir dyraniadau yn seiliedig ar gysylltiad lleol, cysylltiad cymunedol a hyd eu cofrestrriad.

Mae'r polisi hwn yn esbonio pwy sy'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol a beth y rhoddwn ystyriaeth iddo wrth wneud y penderfyniad. Mae'n esbonio sut all ymgeiswyr gynnig am a derbyn tai cymdeithasol; y flaenoriaeth a roddir iddynt ac ym mha drefn y gwneir unrhyw gynnig o dai cymdeithasol.

Ni fydd y polisi hwn yn trafod gweithdrefnau gweithredol manwl, sy'n cael eu cynnwys mewn dogfen ar wahân, sydd ar gael trwy ofyn amdani.

Datblygu'r polisi hwn

Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn ymgynghori'n eang, gan gynnwys:

- Hysbysebion radio i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r polisi
- Arolwg ar-lein yn gofyn i bobl gynnig eu barn ar y cynigion drafft
- Arolwg ffôn yn gofyn am farn pobl ar y Gofrestr Tai
- Trafodaethau helaeth gyda chymdeithasau tai lleol a staff rheng flaen
- Trafodaethau gyda phartneriaid allweddol fel Shelter Cymru a'n Fforwm Digartrefedd
- Cyfarfodydd gydag aelodau'r Cyngor
- Barn arbenigol gan ein cyfreithwyr ac ymgynghorwyr i sicrhau ein bod yn diwallu ein cyfrifoldebau cyfreithiol

Rhaid i'r polisi hwn ddiwallu ein cyfrifoldebau cyfreithiol ac fe'i datblygwyd yn unol â Deddf Tai 1996 (Rhan 6), Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r *Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety a Digartrefedd* (Llywodraeth Cymru, 2016) (a elwir yn "*Cod Canllawiau*").

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein dyraniadau a gosodiadau yn anwahaniaethol a cheisiwn ddiwallu ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys galluogi pob ymgeisydd i allu manteisio ar y gwasanaeth, gan roi ystyriaeth i unrhyw fregusrwydd neu anghenion arbennig.

Cynhaliwyd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi hwn. Mae ar gael ar-lein yn www.sirgar.llyw.cymru

Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu ein holl gyfrifoldebau byddwn yn:

- Monitro'r polisi a'i effaith ar gydraddoldeb a hygyrchedd
- Bodloni gofynion rhannu gwybodaeth a diogelu data
- Delio â chwynion mewn ffordd briodol ac amserol

Camau allweddol ar gyfer cael eich ystyried ar gyfer tai cymdeithasol

Rhaid mynd trwy broses pum cam er mwyn cael eich ystyried ar gyfer tŷ neu fath arall o gartref.

Cam Un – Gwybodaeth, Cyngor a Gwneud Cais

Mae gwybodaeth am ddewisiadau tai i'w chael ar ein gwefan - <http://www.sirgar.llyw.cymru> a gellir gwneud ymholiad ar-lein.

Mae gennym hefyd dîm o gynghorwyr tai pwrpasol fydd yn trafod anghenion ac amgylchiadau tai unigol ac yn rhoi gwybodaeth, cymorth a chyngor priodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am brynu neu rentu cartref neu helpu pobl i aros yn y cartref sydd ganddynt ar hyn o bryd. Gellir cysylltu â'r tîm ar y ffôn 01554 899389 neu trwy e-bost yn <mailto:schoptions@sirgar.gov.uk>.

Er mwyn siarad ag unrhyw un wedi oriau swyddfa ffoniwch 0300 333222.

Yn dilyn yr ymholiad cychwynnol, efallai mai gwneud cais i ymuno â'r gofrestr tai fydd y dewis mwyaf priodol.

Bydd cais ar y cyd yn cael ei drin yn un cais. Bydd anghenion tai holl aelodau'r aelwyd yn cael eu hystyried wrth asesu cais. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn ceisiadau lluosog, sy'n golygu na all unrhyw unigolyn gael eu henw ar fwy nac un cais am dŷ ar unrhyw un adeg.

Cam Dau – Cymhwystra

Fel rhan o'r drafodaeth ar ddewisiadau tai byddwn yn asesu a fydd ymgeisydd yn gymwys i ymuno â'r Gofrestr Tai. Mae'n rhaid inni sicrhau bod ymgeiswyr yn gymwys i ymuno â'r gofrestr ac y cynhelir archwiliadau trylwyr i sicrhau mai'r sawl sydd â hawl cyfreithiol i gael tai cymdeithasol sy'n cael eu cofrestru. Mae'n rhaid inni gael modd adnabod ffotograffig (e.e. pasbort, trwydded yrru) a Rhif Yswiriant Gwladol. Bydd hyn yn ein helpu i wneud archwiliadau cychwynnol cyn cofrestru. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth i'n helpu i sicrhau bod dyraniadau'n cael eu gwneud yn deg ac yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae rhai grwpiau o bobl **na allant** yn gyfreithiol ymuno â'r gofrestr, waeth beth yw eu hangen am dŷ neu amgylchiadau. Pobl yw'r rheiny:

- Sy'n dod o dan wahanol reolau mewnfudo sy'n golygu na allant wneud cais am gymorth tai
- Sy'n byw'r tu allan i'r Ardal Teithio Gyffredin, (DG, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon) at ddibenion treth
- Nad oes ganddynt yr hawl i fyw yn y DG
- Y penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol nad ydynt yn gymwys i gael tŷ neu fath arall o gartref

Ni fyddwn yn cofrestru pobl a fu'n euog o ymddygiad anfoddhaol¹. Digwydd hynny pan rydym yn fodlon fod ymgeisydd (neu aelod o aelwyd ymgeisydd) yn euog o ymddygiad anfoddhaol sy'n ddigon difrifol i'w gwneud yn anaddas i fod yn denant. Gallai hynny fod oherwydd y canlynol:

- Peidio talu rhent
- Torri amodau tenantiaeth flaenorol
- Ymddygiad a barodd niwsans neu annifyrrwch
- Defnyddio'r eiddo at ddibenion anghyfreithlon/anfoesol

¹ O dan adran 160A(7) ac (8) Deddf Tai 1996.

Gall unrhyw un dros 16 oed wneud cais i ymuno â'r gofrestr. Caiff darpar denantiaid eu hasesu o ran eu gallu i reoli cartref. Gall hyn gynnwys atgyfeiriad i'n tîm Gwasanaethau Cymdeithasol neu fudiadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc a bregus, all wneud argymhelliad ynghylch addasrwydd ymgeisydd. Bydd unrhyw denantiaeth ar gyfer person dan 18 oed yn cael ei chadw mewn ymddiriedolaeth (ac wedi hynny gallant ddal tenantiaeth yn gyfreithlon trwy eu hawl eu hunain). Golyga hynny y bydd person addas arall (megis rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol, gofalwr, gweithiwr cymdeithasol neu berthynas) yn gyfrifol am yr eiddo yn y cyfamser.

Wedi eu cofrestru gellir ystyried ymgeisydd ar gyfer cael eu cartrefu gennym ni a'r cymdeithasau tai cyfranogol canlynol:

- Cymdeithas Tai Bro Myrddin
- Cymdeithas Tai Teulu
- Cymdeithas Tai Pobl
- Cymdeithas Tai Wales and West

Mae'r cymdeithasau hyn wedi ymrwymo'n wirfoddol i'r polisi hwn. Gwnaethant hynny er mwyn sicrhau bod gan bob ymgeisydd am dai cymdeithasol yr un broses gwneud cais a'u bod yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r un meini prawf. Gweithiwn gyda'n gilydd gyda'r bwriad o sicrhau bod pob cartref yn cael eu dyrannu yn unol â'r polisi hwn.

Cam Tri – Blaenoriaeth

Nid yw Tai Cymdeithasol ond yn cael eu dyrannu i bobl a gafodd eu derbyn ar ein cofrestr tai. Unwaith y cadarnhawyd cymhwystra i ymuno â'r gofrestr, bydd ymgeiswyr yn cael eu rhoi mewn un o ddau fand blaenoriaeth². Gellir hefyd eu 'cofrestru yn unig' os oes ganddynt angen tai isel neu ddim angen tai o gwbl.

Mae'r penderfyniad ar ym mha fand y rhoddir person yn dibynnu ar eu hangen am dai, pa mor daer yw'r angen a'r amgylchiadau.

Rhoddir blaenoriaeth hefyd i bobl a chanddynt gysylltiad lleol â Sir Gaerfyrddin, cysylltiad cymunedol yn Sir Gaerfyrddin ac am faint o amser y buont ar y gofrestr.

Wrth asesu anghenion tai ymgeisydd, rhoddir ystyriaeth i Atodiad 3 y *Cod Ymddygiad* i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth ddigonol am dai i'r sawl a chanddynt flaenoriaeth resymol ac ychwanegol.

Mae'r bandiau fel a ganlyn:

² Lluniwyd y polisi hwn yn unol ag adran 167(2) Deddf Tai 1996, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol roi blaenoriaethau ychwanegol i ymgeiswyr a chanddynt anghenion tai brys.

Band A – Angen Brys o Ran Tai (Blaenoriaeth Ychwanegol)

Digartrefedd

- Ymgeiswyr a gafodd eu hasesu o dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 ac y derbyniwyd dyletswydd adran 75.

Rhesymau meddygol neu les brys

- Bydd angen i'r ymgeisydd symud am resymau risg uchel neu'n peryglu bywyd na fyddant yn gwella hyd nes y cynigir llety mwy addas. Bydd hynny'n galw am asesiad gan Therapydd Galwedigaethol all argymell symud i gartref a gafodd ei addasu'n briodol.
- Mae'r ymgeisydd neu aelod o'r un aelwyd yn gyn aelod o'r lluoedd arfog ac a brofodd wasanaeth gweithredol yn y lluoedd arfog ac sy'n dioddef o anhwylder straen ôl-drawmatig neu salwch difrifol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaeth yn y lluoedd arfog.

Amgylchiadau tai afiachus, gorlawn neu anfoddhaol.

- Ar hyn o bryd mae'r ymgeisydd yn byw mewn eiddo lle y mae gofyniad statudol i'w adael oherwydd gorchymyn gwahardd/gorchymyn dymchwel/gorchymyn pryniant gorfodol.
- Mae'r ymgeisydd yn byw mewn amgylchiadau difrifol orlawn (er enghraifft, nid oes gan yr aelwyd ddwy ystafell wely neu ragor).

Yr angen i symud oherwydd caledi a thanfeddiannu

- Byddai methu symud i ardal benodol yn arwain at galedi
- Ar hyn o bryd, mae'r ymgeisydd yn tanfeddiannu tŷ cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ac mae angen iddo/iddi symud i eiddo llai oherwydd bod yr eiddo presennol yn anfforddiadwy ac y byddai aros yno yn arwain at galedi.

Mae Deddf Tai 1996 yn rhoi manylion llawn am sefyllfaoedd lle y dylid rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ymgeiswyr a/neu y dylid eu hasesu o dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 a byddwn yn asesu ymgeiswyr yn unol â'r ddeddfwriaeth yn llawn.

3 Pobl y mae gan unrhyw awdurdod tai lleol ddyletswydd iddynt o dan adran 190(2), 193(2) neu 195(2) neu 68(2) neu sy'n byw mewn llety a sicrhawyd gan unrhyw awdurdod o'r fath o dan adran 192(3).

Band B – Angen o Ran Tai (Blaenoriaeth Resymol)

Pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu bygythiad cael eu gwneud yn ddigartref. Mae enghreifftiau o hynny'n cynnwys:

- Ymgeiswyr sy'n wynebu bygythiad cael eu gwneud yn ddigartref o fewn 56 diwrnod ac y gall fod ganddynt angen blaenoriaeth
- Ymgeiswyr a gafodd eu hasesu'n ddigartref ond nad oes ganddynt angen blaenoriaeth.
- Ymgeiswyr a gafodd eu hasesu'n fwriadol ddigartref ac na chawsant eu tynnu oddi ar y gofrestr tai oherwydd ymddygiad anfoddfaol.³

Pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les. Mae enghreifftiau o hynny'n cynnwys:

- Ymgeiswyr sydd angen symud gan na fydd eu cyflwr meddygol yn gwella. Nid yw'r asesiad yn seiliedig ar y cyflwr meddygol yn unig ond ar sut mae eu llety presennol yn effeithio eu hiechyd. Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr yn byw mewn cartref symudol, carafán neu gerbyd wedi'i addasu.
- Ymgeiswyr sydd angen symud er mwyn darparu neu dderbyn cefnogaeth a gofal gan na allant gyflawni gweithgareddau beunyddiol ar eu pen eu hunain h.y. ymolchi, glanhau a mynd i mewn ac allan o'r gwely.
- Ymgeisydd sydd ar hyn o bryd yn tanfeddiannu cartref cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ac sydd eisiau symud i eiddo llai.
- Ymgeiswyr sydd eisiau symud o gartref wedi'i addasu nad ydynt ei angen mwyach. Byddai hynny wedyn yn gymorth i aelwyd arall sydd angen y math arbenigol hwn o eiddo.

Pobl sy'n byw mewn tai afiachus neu orlawn neu sy'n byw mewn amgylchiadau anfoddfaol o fathau eraill. Enghraifft o hynny yw:

- Mae'r ymgeisydd yn byw mewn eiddo gorlawn ac sy'n brin o un ystafell wely.

Pobl sydd angen symud i ardal arbennig yn Sir Gaerfyrddin, pan fyddai methu diwallu'r angen hwnnw'n achosi caledi iddyn nhw neu eraill. Enghraifft o hynny yw:

Ymgeisydd sy'n gweithio ond y mae ganddynt incwm o dan y trothwy ar gyfer Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio (£16,000 ym mis Hydref 2015).

Ar gyfer y sawl sydd ar y gofrestr tai nad ydynt yn syrthio i mewn i'r bandiau hyn cânt eu hystyried yn 'Cofrestredig yn Unig'. Ymgeiswyr yw'r rhain sy'n gymwys i gael eu cofrestru, ond y mae ganddynt angen isel iawn neu ddim angen o gwbl am dai; ond sydd wedi lleisio diddordeb mewn symud. Gellir cynnig eiddo iddynt na chafodd ei dderbyn gan ymgeiswyr o'r ddau grŵp blaenoriaeth.

Cam Pedwar – Maint, Math a Lleoliad

Mae angen inni sefydlu ymhle yr hoffai ymgeisydd fyw yn ogystal â'r maint a math o gartref maent yn chwilio amdano. I'r graddau y mae hynny'n bosib, rydym eisiau cynnig dewis i ymgeiswyr a diwallu eu dyheadau yn ogystal â'u hanghenion.

Gall ymgeiswyr ddatgan ym mha fath o eiddo ac ardal yr hoffent fyw ynddynt. Mae mwy o alw mewn rhai ardaloedd na'i gilydd. Efallai y gofynnir i ymgeisydd am ardaloedd nad ydynt yn credu y gallant fyw ynddynt, oherwydd eu bod yn ofni trais, aflonyddwch neu gamdrin domestig.

Rhaid cydbwysu'r angen i gynnig dewis i ymgeiswyr gyda'n cyfrifoldebau cyfreithiol i gyflawni ein dyletswyddau digartrefedd a'r galw trwm am dai yn Sir Gaerfyrddin. Efallai na fyddwn yn gallu bodloni dewisiadau pob ymgeisydd.

Mae Atodiad Un yn nodi ar gyfer pa faint eiddo y caiff ymgeiswyr eu hystyried.

Cam Pump – Dyrannu

Bydd yr ymgeiswyr hynny a chanddynt yr angen mwyaf am dai yn cael eu hystyried gyntaf (Band A). Pan ddaw eiddo ar gael i'w osod, byddwn yn edrych ar:

- Yr ymgeiswyr a ddewisodd yr ardal honno
- Maint yr eiddo
- Y math o eiddo
- A wnaed addasiadau anabledd iddo ai peidio

Wrth ddewis ymgeiswyr sy'n diwallu meini prawf Band A neu Fand B, byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'r ffactorau blaenoriaethu canlynol:

Ffactor Blaenoriaethu Un	Y Band Blaenoriaeth	Bydd ymgeiswyr BAND A yn gyntaf, yna BAND B, yna ymgeiswyr wedi cofrestru yn unig
Ffactor Blaenoriaethu Dau	Y Meini Prawf Cysylltiad Lleol	Byddwn wedyn yn didoli yn ôl ymgeiswyr a chanddynt Gysylltiad Lleol (gweler Atodiad Dau i gael manylion llawn am gysylltiad lleol)
Ffactor Blaenoriaethu Tri	Y Meini Prawf Cysylltiad Cymunedol	Os oes gan fwy nac un ymgeisydd ddiddordeb, byddwn yn didoli yn ôl Cysylltiad Cymunedol (gweler Atodiad Dau i gael manylion llawn am gysylltiad cymunedol)
Ffactor Blaenoriaethu Pedwar	Hyd y Cofrestrriad	Os oes mwy nac un ymgeisydd o hyd, y ffactor benderfynol derfynol fydd yr amser a dreuliwyd ar y gofrestr tai yn y band blaenoriaeth

Mae pumed ffactor blaenoriaethu, sef a oes gan yr ymgeisydd y modd ariannol i ddiwallu eu hangen tai eu hunain. Os oes gan ymgeisydd ar restr fer ddigon o adnoddau ariannol i allu diwallu eu hangen tai eu hunain, bydd gan yr ymgeisydd lai o flaenoriaeth am dai nac ymgeisydd arall nad oes ganddynt adnoddau o'r fath. Enghraifft o hynny yw pan fydd pobl wedi gwerthu eu heiddo ac yna'n ymuno â'r gofrestr i gael eu hailgartrefu.

Gwneir y cynnig i'r ymgeisydd yn y band uchaf (gan ddefnyddio cysylltiad lleol, cysylltiad cymunedol ac amser aros i'n helpu i greu rhestr fer o bobl yn yr un Band).

Wedi adnabod ymgeisydd ar gyfer eiddo, byddwn yn cynnal dilysiad arall o'u cymhwystra a'u blaenoriaeth i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir cyn gwneud cynnig ffurfiol. Ni wneir cynnig os:

- Ddaeth ymgeisydd yn anghymwys ers ymuno â'r gofrestr
- Gwelir y dyfarnwyd y band blaenoriaeth anghywir oherwydd y wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd
- Yw amgylchiadau wedi newid ers dyfarnu'r band blaenoriaeth ac nad yw'r ymgeiswyr mwyach yn teilyngu'r un lefel o flaenoriaeth

Byddwn yn gwirio holl fanylion ymgeiswyr ac mewn rhai amgylchiadau yn gofyn am brawf i gadarnhau fod y wybodaeth a roddwyd yn gywir. Gallai methu darparu'r wybodaeth angenrheidiol olygu y byddwn yn gwrthod y cynnig.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw rhoi gwybod inni am unrhyw newidiadau i'w hanghenion tai neu gynnwys eu haelwyd. Mae'n hollbwysig fod gennym fanylion cyswllt manwl-gywir. Os na allwn gysylltu ag ymgeisydd neu os yw ymgeisydd yn methu ymateb i lythyron cyswllt byddwn yn tynnu'r cais oddi ar y gofrestr tai.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug neu gadw'n ôl wybodaeth yn gysylltiedig â gwneud cais am dŷ neu fath arall o gartref. Pan fydd tystiolaeth o drosedd o'r fath byddwn yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn yr ymgeisydd ac yn cymryd camau i derfynu unrhyw denantiaeth a enillwyd trwy dwyll.

Mae rhai amgylchiadau lle y gwneir dyraniadau y tu allan i'r broses hon, ac esbonnir y rhain yn Atodiad Tri.

4 O dan A.171 Deddf Tai 1996 mae'n drosedd rhoi datganiad ffug neu i gadw gwybodaeth yn ôl yng nghyswllt gwneud cais am dŷ. Pan fydd tystiolaeth y digwyddodd trosedd o'r fath bydd y Cyngor yn cymryd camau cyfreithiol allai arwain at ddirwy hyd at £5,000.

Gwrthod cynnig

Bydd ymgeiswyr a wrthododd gynnig rhesymol o lety yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Os yw amgylchiadau'n newid, gall ymgeiswyr wneud ail gais, ond cânt eu hailasesu a bydd eu hamser aros yn ailddechrau eto5.

Bydd cynnig addas a rhesymol o lety yn golygu:

- Fod maint yr eiddo yn iawn ar gyfer aelwyd yr ymgeisydd
- Y cafodd yr effaith bosib ar addysg, cyflogaeth, cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol ei hystyried yn llawn
- Y cafodd y perygl o drais neu gamdrin domestig ei ystyried
- Fod yr eiddo mewn ardal a ddewiswyd gan yr ymgeisydd

Mae adegau ac amgylchiadau pan y gellir amrywio hyn. Efallai y gwnawn gynnig addas y tu allan i ardal a ddewiswyd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol i bobl ddigartref, neu er mwyn lleihau effaith ariannol darparu llety dros dro.

Bydd pob cynnig ffurfiol i'r sawl a dderbyniwyd oherwydd dyletswydd dan ddeddfwriaeth digartrefedd yn ysgrifenedig.

Fe fydd adegau pan gaiff cynnig ei dynnu'n ôl. Gall hynny ddigwydd hyd at yr adeg y llofnodir cytundeb tenantiaeth. Ymhlith yr enghreifftiau o resymau dros dynnu cynnig yn ôl mae:

- Nid yw'r eiddo'n addas ar gyfer anghenion yr aelwyd
- Nid yw'r eiddo'n dod ar gael
- Mae pryder am ddiogelwch y gymuned
- Fe ddaw yn hysbys y cafodd gwybodaeth ei chadw'n ôl
- Fe ddaw yn hysbys fod gan yr aelwyd neu aelod o'r aelwyd ddyled yn gysylltiedig ag eiddo
- Gwnaed y cynnig trwy gamgymeriad
- Mae amgylchiadau'r aelwyd wedi newid
- Mae angen yr eiddo ar gyfer argyfwng
- Fe ddaw yn hysbys na fyddai'r rhent yn fforddiadwy

Mae ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynnig llety yn cael eu rhwystro rhag ailgynnig am dŷ neu fath arall o gartref o fewn 12 mis, oni fu newid arwyddocaol yn eu hamgylchiadau.

5 Bydd yr aelwydydd hynny y mae gan awdurdod tai ddyletswydd digartrefedd iddynt o dan adran 66, neu a73, neu a75 Deddf Tai (Cymru) 2014 neu ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried yn ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr a deuir i ben ag unrhyw ddyletswydd digartrefedd statudol o dan a66, a73 neu a75 a chânt eu hatgoffa o'r canlyniad hwn ar yr adeg pan gynigir yr eiddo iddynt yn ffurfiol.

Y Broses Adolygu

Mae gan yr ymgeisydd hawl i gael adolygiad o'r penderfyniadau canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â'u rhoi mewn band neu'n anghytuno â'r band y cawsant eu rhoi ynddo
- Mae'r ymgeisydd yn credu y gwnaed penderfyniad ar sail gwybodaeth anghywir
- Mae'r ymgeisydd wedi cael ei drin/thrin yn anghymwys oherwydd eu statws mewnfudo
- Cawsant eu trin yn anghymwys i ymuno â'r gofrestr oherwydd ymddygiad anfoddfaol
- Maent wedi gwrthod cynnig rhesymol o lety

Rhaid i ymgeiswyr ofyn am gael adolygiad o benderfyniad o fewn 21 diwrnod i gael gwybod yn ysgrifenedig. Rhaid iddynt roi rhesymau pam eu bod eisiau cael adolygiad o'r penderfyniad, gan gynnwys ymhle y credant y cafodd penderfyniad anghywir ei wneud.

Caiff yr adolygiad, y mae gan yr ymgeisydd hawl i fod ynddo gyda chynrychiolydd, ei gynnal gan uwch swyddog yn y Cyngor. Ni fydd y swyddog adolygu wedi bod yn gysylltiedig â gwneud y penderfyniad gwreiddiol.

Byddwn yn ceisio cwblhau a rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig beth yw'r penderfyniad o fewn pedair wythnos, wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd. Fel arall, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am unrhyw estyniad i'r amser sydd ei angen er mwyn gwneud y penderfyniad. Mae gan yr ymgeisydd yr hawl i fynd i'r Llys Sirol, ar 'fater cyfreithiol', os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad yr adolygiad.

Cynghorwyr, aelodau bwrdd tai, staff a'u perthnasau

Prif rôl ein cynghorwyr (fel y'i hamlinellir mewn canllawiau statudol), yw datblygu a chymeradwyo'r polisi a dal swyddogion yr awdurdod yn atebol am eu gweithredoedd.

Ni all cynghorwyr fod yn rhan o asesu ceisiadau am dai nac o ddyrannu tai. Fodd bynnag, nid yw hynny'n eu hatal rhag gofyn am neu ddarparu gwybodaeth ar ran eu hetholwyr. Caiff cynghorwyr wybod am unrhyw gartrefi gwag. Wedi i'r eiddo gael ei ddyrannu'n llwyddiannus ac wedi i rywun symud i mewn iddo, byddwn hefyd yn rhoi gwybod i gynghorwyr (gan gadw at y cyfyngiadau diogelu data a pheidio rhannu gwybodaeth bersonol).

Mae swyddogion yr awdurdod yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn ac am ddyrannu yn ôl ei reolau. Mae'n debyg y bydd swyddogion gwahanol yn gwneud y gwaith o asesu ceisiadau ac o ddyrannu tai. Mae'n amlwg felly y bydd cael polisi clir yn creu cysondeb.

Er mwyn sicrhau ein bod yn trin pob ymgeisydd yn deg, rhaid datgelu unrhyw gais am dai gan gynghorwyr neu weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin neu bersonau cysylltiol. Ni chaniateir canfasio.

Caiff y ceisiadau hyn eu hasesu yn y ffordd arferol ond rhaid i ddyrannu tai gael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd. Ar gyfer cymdeithasau tai, mae'n rhaid iddynt drefnu fod y dyraniad yn cael ei gymeradwyo ar lefel bwrdd a rhaid iddynt roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y dyraniad.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r polisi

Byddwn yn cyhoeddi'r polisi hwn ac yn trefnu ei fod ar gael yn hwylus. Byddwn yn darparu copi yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n gofyn am un ac yn ei wneud ar gael ar-lein. Mae cyngor ar eiriad y polisi hwn ar gael trwy'r tîm dewisiadau a chyngor tai ar 01554 899389 neu e-bost <mailto:schoptions@sirgar.gov.uk>.

Newid y polisi

Ni ellir newid y polisi hyd nes y danfonwyd copïau o newidiadau at y cymdeithasau tai cyfranogol. Mae'n rhaid rhoi cyfle rhesymol iddynt gynnig sylwadau ar y cynigion.

Rhaid i'r holl newidiadau o bwys gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir. Byddwn yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r sawl allai gael eu heffeithio, ac o fewn cyfnod rhesymol, am unrhyw newidiadau polisi o bwys. Ar gyfer unrhyw newidiadau o bwys, rhaid cynnal proses ymgynghori lawn a manwl ar gyfer y sawl allai gael eu heffeithio. Cyflwynir canlyniadau'r ymgynghoriad i'r Cyngor Sir ac i gymdeithasau tai.

Ar gyfer mân newidiadau i'r polisi, caiff y penderfyniadau eu dirprwyo i Aelod y Bwrdd Gweithredol ar gyfer Tai.

Caiff set o weithdrefnau gweithredol fydd yn sail i'r ddogfen bolisi hon ei chymeradwyo gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai. Ar gyfer mân newidiadau i weithdrefnau, caiff penderfyniadau eu dirprwyo i'r Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd. Ymgynghorir â'r Bartneriaeth cyn gwneud unrhyw newidiadau.

Atodiad Un – lleoliad, math a maint o eiddo

Caiff eiddo eu dyrannu yn ôl eu haddasrwydd i faint yr aelwyd. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd efallai na fydd gennym y maint o gartref i ddiwallu'r union anghenion. Er mwyn sicrhau y gallwn wneud y defnydd gorau o'r stoc, efallai y cynigir eiddo sy'n fwy na'r un fyddai'n cael ei gynnig fel arfer. O dan amgylchiadau o'r fath byddwn yn sicrhau y gall yr ymgeisydd fforddio'r rhent cyn gwneud y cynnig.

Aelwyd	Maint	Math o eiddo
Pobl sengl/parau	1 ystafell wely	Fflat un ystafell, fflat 1 ystafell wely
Pobl sengl neu barau 55 oed a throsodd	1 ystafell wely	Fflat un ystafell, fflat 1 ystafell wely Byngalos a thai gwarchod 1 neu 2 ystafell wely
Aelwyd yn disgwyl eu babi cyntaf (ac sydd wedi cael y dystysgrif MATB1)	2 ystafell wely	Fflatiau, maisonettes a thai 2 ystafell wely
Aelwyd ag un plentyn	2 ystafell wely	Fflatiau, maisonettes a thai 2 ystafell wely
Aelwyd â dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed	2 ystafell wely	Fflatiau, maisonettes a thai 2 ystafell wely
Aelwyd â dau blentyn heb fod yr un rhyw lle y mae un dros 10 oed	3 ystafell wely	Tŷ 3 ystafell wely
Aelwyd â thri phlentyn neu ragor	3 ystafell wely	Tŷ 3 ystafell wely tai 4 neu 5 ystafell wely (os ydynt ar gael gan fod stoc cyfyngedig o'r maint hwn)

Mae eithriadau i'r drefn hon, a amlinellir fel a ganlyn:

Mae **tai pobl hŷn, neu 'Dai Gwarchod'** yn cael eu cadw fel arfer ar gyfer pobl sy'n 55 oed a throsodd. Gall hynny amrywio mewn Llety Gofal Ychwanegol lle y gall y meini prawf fod yn seiliedig ar anghenion gofal ac iechyd. Ar gyfer Cynlluniau'r Cyngor, cynhelir asesiad fel arfer gan Swyddog Cynllun Tai Gwarchod. Er mwyn cael eu hystyried, bydd pobl fel arfer:

- Dros 55, (er y gall rhai cynlluniau osod isafswm oed gwahanol)
- Yn gallu gadael yr adeilad ar eu pen eu hunain adeg tân (ar gyfer canolfannau sy'n eiddo i'r Cyngor)

• Yna defnyddir yr un trefniadau blaenoriaeth.

Caiff **byngalos** eu dyrannu i aelwydydd sy'n cynnwys aelod o'r teulu dros 55 oed. Os nad oes ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf hyn caiff pobl eraill eu hystyried o dan yr oed hwn, gan roi ystyriaeth i'w hamgylchiadau.

Caiff **eiddo wedi'u haddasu** eu dyrannu pan gafodd aelod o'r aelwyd eu hasesu gan Therapydd Galwedigaethol a phan benderfynwyd fod angen addasiadau penodol arnynt.

Caledi ariannol - cynhelir asesiadau addasrwydd mewn rhai amgylchiadau i sicrhau y gwneir pob ymdrech er mwyn sicrhau bod y cartrefi a gynigir yn fforddiadwy.

Gofal Ychwanegol - mae'r rhain yn gyfleusterau arbenigol ar gyfer ymgeiswyr sydd angen cefnogaeth a gofal. Gwneir yr asesiad ar sail meini prawf y Cyfleusterau Gofal Ychwanegol.

Atodiad Dau - Diffiniad o Gysylltiad Lleol a Chysylltiad Cymunedol ac ardaloedd

Defnyddir dwy ffactor cysylltiad wrth flaenoriaethu dyraniad, sy'n ymwneud ag angen person am yr eiddo gwag penodol hwnnw.

Cysylltiad lleol - mae gan yr ymgeisydd gysylltiad â Sir Gaerfyrddin

Cysylltiad cymunedol - mae gan yr ymgeisydd gysylltiad ag ardal y gymuned y mae'r eiddo ynnddi

Cysylltiad Lleol â Sir Gaerfyrddin

Diffinnir Cysylltiad Lleol yn Adran 81 Deddf Tai (Cymru) 2014.

Mae gan berson gysylltiad lleol â'r ardal oherwydd:

- bod y person, neu y bu yn y gorffennol, yn byw yno fel arfer, ac mai'r person ei hun oedd wedi dewis byw yno
- bod y person yn cael eu cyflogi yno
- cysylltiadau teuluol; neu
- oherwydd amgylchiadau arbennig
-

Bydd ymgeiswyr nad oes ganddynt gysylltiad lleol â Sir Gaerfyrddin yn dal i gael eu derbyn ar y gofrestr tai. Er hynny, ni fyddant yn cael cymaint o flaenoriaeth.

Bydd cartrefi gwag yn cael eu gosod yn unol ag angen am dai a blaenoriaeth. Pan fydd gan fwy nac un ymgeisydd anghenion tebyg am dai, bydd cysylltiad lleol yn un o'r ffactorau a ddefnyddir i ddiolli a phenderfynu i bwy y caiff yr eiddo ei ddyrannu.

Cysylltiad Cymunedol ag Ardal

Fel arfer bydd cysylltiad cymunedol ag ardal yn y sir â'r ardal y mae ymgeisydd yn byw ynnddi ar y pryd. Fodd bynnag, gall ymwneud hefyd ag ardal y buont yn byw ynnddi yn y gorffennol, y mae ganddynt deulu yn byw ynnddi, yn gweithio'n agos ati neu y mae ganddynt blant mewn ysgol yn agos ati. Gall ymgeiswyr ddewis un ardal yr hoffent i gysylltiad cymunedol ymwneud â hi, gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol;

- Ymgeiswyr sydd wedi byw yn ardal y gymuned am gyfnod di-dor o 5 mlynedd o leiaf,
- Ymgeiswyr sy'n gweithio yn ardal y gymuned,
- Ymgeiswyr sydd wedi byw yn ardal y gymuned yn y gorffennol am gyfnod di-dor ond sydd wedi gorfod symud allan o'r ardal er mwyn cael cartref; a/neu y mae ganddynt berthynas agos6 sydd wedi byw yn yr ardal am 5 mlynedd ac yr aseswyd fod angen iddynt barhau i fyw yn yr ardal er mwyn darparu cefnogaeth hanfodol.
- Aelodau'r Lluoedd Arfog Rheolaidd y mae ganddynt gysylltiad cymunedol â'r ardal (e.e. maent wedi byw yma yn y gorffennol/mae ganddynt berthnasau agos yn byw yma ar hyn o bryd).

6 Y diffiniad o berthynas agos yw Mam, Tad, Plant neu Frodyr a Chwirydd sydd wedi byw yn yr ardal am 5 mlynedd o leiaf

Ardaloedd Cysylltiad Cymunedol

Caiff ymgeiswyr eu dosbarthu yn ôl eu cysylltiad cymunedol â'r grwpiau ardal canlynol:

Dwyrain Llanelli	Dyffryn Aman	Tref Llanelli	Canol Gwledig
Gorllewin Llanelli	Gorllewin Gwledig	Gwendraeth Isaf	Gogledd Llanelli/Gwledig
Gwendraeth	Gogledd Gwledig	Caerfyrddin	Rhydaman
Llanymddyfri/Llandeilo			

Os gall ymgeisydd ddangos unrhyw reswm arall sy'n profi fod ganddynt gysylltiad cymunedol ag ardal gymuned wahanol, byddwn yn cynnig hyblygrwydd i'w cofrestru ar gyfer yr ardal honno. Enghraifft o hyblygrwydd yw pan fyddwch yn byw'n agos at ffin ardal gymunedol.

Pwrpas y grwpiau 'ardaloedd cysylltiad cymunedol' hyn yw rhoi dewis i ymgeiswyr dros ardal ehangach nac un pentref neu dref. Mae hyn yn helpu cydbwyso angen yn erbyn ardaloedd nad oes ganddynt fawr ddim tai cymdeithasol os o gwbl.

Atodiad Tri – eiddo a ddyrennir y tu allan i'r polisi ac eithriadau eraill

Ar adegau caiff tai eu dyrannu y tu allan i flaenoriaethau bandio. Er lles tryloywder ceisiwn gadw amgylchiadau o'r fath mor isel ag y bo modd. Yr amgylchiadau hynny yw:

- Pan fydd angen darparu llety amgen ar gyfer tenant er mwyn gwneud atgyweiriadau neu welliannau i'w cartref neu pan fydd angen symud y tenant fel rhan o gynllun adfywio a phan mae'r tenant wedi dewis symud yn ôl i mewn ar ôl gorffen y gwaith
- Pan fydd dyletswydd i ailgartrefu pobl yn dilyn pryniant gorfodol
- Cyfnewidiadau rhwng tenantiaid tai cymdeithasol (tenantiaid cyngor neu gymdeithas tai)
- Pan fydd tenant yn marw, a phan mae olyniaeth y denantiaeth i aelodau eu haelwyd yn berthnasol. Os yw'r cartref y cawsant olyniaeth iddo yn fwy na'r hyn y mae ganddynt angen rhesymol amdano, efallai y cynigir llety amgen addas. Neu, os yw'r cartrefi y mae ganddynt olyniaeth iddynt yn eiddo wedi'i addasu, efallai y cynigir dewis arall iddynt i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n stoc
- Pan fydd galw isel/dim galw o gwbl am yr eiddo
- Pan fydd ymgeisydd yn ddigartref ac mewn llety dros dro na fyddai'n addas am fwy na chyfnod byr neu pan fydd angen inni symud ymgeiswyr allan o lety dros dro er mwyn rheoli'r goblygiadau cyllidebol
- Pan fydd tenant presennol yn dymuno 'ychwanegu' cyd denant i'w tenantiaeth. Os ydym yn fodlon caniatáu'r tenant i wneud hynny (sy'n benderfyniad inni), yr unig ffordd i roi'r denantiaeth mewn enwau ar y cyd yw terfynu'r denantiaeth bresennol a chaniatáu cyd denantiaeth newydd yn ei lle. Yn yr amgylchiadau hyn rydym yn cadw'r hawl i ganiatáu tenantiaeth newydd yn enw'r cyd denantiaid, heb gyfeirio at y polisi dyraniadau
- Pan fydd cyd denantiaid yn dymuno 'tynnu' un ohonynt oddi ar y cytundeb tenantiaeth. Os ydym yn fodlon caniatáu i'r tenantiaid wneud hynny (sy'n benderfyniad inni), yr unig ffordd i roi'r denantiaeth yn enw'r tenant sy'n weddill yn unig yw terfynu'r denantiaeth bresennol a chaniatáu tenantiaeth newydd. Pan wneir cais o'r fath, rydym yn cadw'r hawl i ganiatáu tenantiaeth newydd yn enw'r tenant sy'n dymuno aros yn yr eiddo, heb gyfeirio at y polisi dyraniadau

Mae adegau eraill pan fydd cynigion o lety yn cael eu gwneud neu'n cael eu heffeithio gan bolisiâu eraill neu ofynion gweithredol neu reolaethol. Caniateir y rhain o dan adran 167(2E) Deddf Tai 1996 ac rydym wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

Polisiâu Gosodiadau Lleol (ardaloedd)	Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gan ardaloedd penodol bolisi gosodiadau lleol a gytunwyd yn ffurfiol. Byddai polisi gosodiadau lleol ar waith er mwyn gwneud yn siwr fod cartrefi yn yr ardal honno'n cael eu gosod mewn ffordd sy'n helpu mynd i'r afael â materion penodol. Er mwyn cytuno polisi gosodiadau lleol dylai
---------------------------------------	---

	<p>fod yn seiliedig ar y prawf canlynol: Diffiniad clir o'r hyn y bwriedir ei gyflawni gan y polisi gosodiadau lleol. Corff clir o dystiolaeth i gefnogi'r angen am y polisi gosodiadau lleol. Cafodd unrhyw effaith posib ar gydraddoldeb ei hystyried, am faint fydd y polisi gosodiadau lleol yn weithredol a phryd gaiff y polisi gosodiadau lleol ei adolygu. Rhaid i bolisi gosodiadau lleol gael ei gymeradwyo gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai (y Cyngor) neu fwrdd cymdeithas dai cyn y gellir ei roi ar waith. Mae'n rhaid iddo gael cymeradwyaeth partneriaeth i sicrhau bod unrhyw effaith andwyol anfwriadol ar bartner landlordiaid eraill yn cael eu lleddfu a bod y cyfnod adolygu yn cael ei gytuno. Enghraifft o hynny yw, wrth edrych ar ddatblygiadau tai newydd, fod angen cynllun gosodiadau lleol er mwyn sicrhau cydlynedd cymunedol cynaliadwy. Gellir rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo ymgeiswyr er mwyn darparu ar gyfer cymysgedd o denantiaid mewn ardal newydd. Byddai angen i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai gynnig cymeradwyaeth derfynol yn dilyn y gymeradwyaeth bartneriaeth.</p>
<p>Gosodiadau Sensitif (eiddo unigol)</p>	<p>Gall eiddo unigol fod yn 'osodiad sensitif'. Gallai hynny fod pan fydd hanes pendant o ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu weithgarwch troseddol yn yr eiddo hwnnw gan y tenant blaenorol neu aelodau eu haelwyd. Ni fydd eiddo ond yn cael ei ddynodi'n osodiad sensitif trwy gael cydsyniad y Pennaeth Tai (y Cyngor) neu gan reolwr o'r un statws (cymdeithas dai). Os yw eiddo yn osodiad sensitif, ni fydd rhai aelwydydd yn cael eu hystyried ar gyfer yr eiddo hwnnw. Unwaith y cafodd eiddo ei osod ni fydd mwyach yn cael ei ystyried yn osodiad sensitif. Dylai gosod eiddo yn y modd yma fod yn eithriad ac nid y drefn arferol.</p>
<p>Amgylchiadau eithriadol</p>	<p>Er mwyn cadw rhyw fesur o hyblygrwydd fel a ganiateir gan a 3.67 y Cod Canllawiau, mae gan y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd rymoedd dirprwyedig i wneud cynnig brys o lety. Anaml iawn er hynny y defnyddir y grym hwnnw. Cedwir adroddiad manwl ar sail tystiolaeth ar gyfer ei archwilio pan ddefnyddiwyd y grym hwn, a dylid ei adrodd i'r Bartneriaeth.</p>

Bydd defnyddio'r polisiau gosod uchod yn cael ei fonitro i sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol ar y gosodiadau cyffredinol; nad ydynt yn tra-arglwyddiaethu ar y categorïau blaenoriaeth nac yn cael eu defnyddio'n amhriodol.

Bydd eithriadau eraill yn cynnwys:

Safleoedd teithwyr – Caiff anghenion llety teuluoedd teithwyr eu hasesu o dan adran 101 Deddf Tai (Cymru) 2014. Os yw'r asesiad yn adnabod anghenion o fewn yr ardal o ran darparu safleoedd y gellir rhoi cartrefi symudol arnynt, mae'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei rymoedd yn adran 56 Deddf Cartrefi Symudol Cymru 2013. Rhoddwyd ystyriaeth i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, "Teithio at Ddyfodol Gwell" a'i ganllawiau ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Byddai'r broses ar gyfer dyrannu llain yn dal i fod yn seiliedig ar flaenoriaeth, cysylltiad lleol, cysylltiad cymunedol a'r cyfnod aros os oedd 2 neu fwy o ymgeiswyr am y llain dan sylw.

Llety wedi'i Addasu – Cafodd rhai cartrefi eu haddasu'n arbennig i ddiwallu anghenion pobl. Mae'r math yma o lety'n cynnwys cartrefi ar gyfer pobl ag anableddau a phobl a chanddynt anghenion tai arbennig. Er mwyn sicrhau ein bod yn cysylltu pobl gyda chartrefi wedi'u haddasu ac yn gwneud y defnydd gorau o'r llety sydd gennym ar gael, rydym hefyd yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch (AHR) fel rhan o'r brif gofrestr.

Caiff anghenion tai arbennig eu hadnabod a'u hasesu fel rhan o'r ymholiad cychwynnol am dai. Fel rhan o'r broses hon, efallai y cynhelir asesiad gan therapydd galwedigaethol. Bydd ffrwyth yr asesiad hwn yn penderfynu lefel yr angen a'r math o eiddo wedi'i addasu sydd ei angen.

Llety a rennir – efallai y caiff gosodiadau a rennir ar gyfer pobl ifanc (18-35 oed) eu dyrannu y tu allan i'r polisi er mwyn caniatáu peth hunan-ddewis o gyd rannwyr. Dylid datblygu cynllun gosodiadau lleol cyn dyrannu.